## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 07-08)

**Dyddiad y Cyfarfod:** **8 Ebrill 2008**
**Amser y Cyfarfod:** **8.15am**
**Lleoliad y Cyfarfod:** **Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd**

Roedd yr Aelodau pwyllgor a ganlyn yn bresennol yn y cyfarfod: Dr Dai Lloyd AC, Eleanor Burnham AC, Andrew RT Davies AC ac Alun Davies AC. Cafwyd ymddiheuriadau gan Irene James AC. Roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ran Irene James AC.

Roedd John Griffiths, y Gweinidog dros Sgiliau a swyddogion yn cynrychioli Uned Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bresennol hefyd, sef Mark Leighfield , Arweinydd Polisi ar gyfer y Mesur, Grace Martins, uwch gyfreithiwr y Tim Addysg Uwch a Phellach, a Zenny Saunders, Pennaeth y Tîm Deddfwriaeth.

Mae adroddiadau'r pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

**Offerynnau ac offerynnau drafft na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

SLC126 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) a (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 4 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 28 Mawrth 2008.

SLC130 - Rheoliadau Symud Ymaith a Gwaredu Cerbydau (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 6 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

SLC136 - Rheoliadau Tramgwyddau Amgylcheddol (Cosbau Penodedig) (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 9 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 10 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 7 Ebrill 2008.

SLC137 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 10 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 11 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

SLC139 - Rheoliadau Cynhyrchion Cig (Cymru) (Diwygio) 2008

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 11 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 12 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 6 Ebrill 2008.

SLC140 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau a Symiau at Anghenion Personol) (Diwygio) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 12 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 14 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 7 Ebrill 2008.

SLC142 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 20 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 25 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 18 Ebrill 2008

**Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2**

**Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)**

SLC122 - Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Chwefror 2008. Fe'u gosodwyd ar 29 Chwefror 2008. Yn dod i rym ar 1 Ebrill 2008.

SLC127 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 3 Mawrth 2008. Fe'u gosodwyd ar 5 Mawrth 2008. Yn dod i rym ar 31 Mawrth 2008.

Ceir Adroddiadau'r pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr Offerynnau Statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiadau 1-2 i'r Adroddiad hwn.

**Eitemau eraill o fusnes**

Craffodd y pwyllgor ar y "Cynnig ar gyfer Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2008" fel y nodwyd yn nogfen ymgynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 15 Ionawr 2008. Nododd y Cadeirydd fod yr Aelodau wedi cael cyfle i ystyried papur y Dirprwy Weinidog cyn y cyfarfod a gwahoddodd yr Aelodau i ofyn cwestiynau. Atebodd John Griffiths AC, y Gweinidog dros Sgiliau, gwestiynau'r Aelodau gan ddarparu rhagor o wybodaeth am ddarpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur ac esboniodd y rhesymeg y tu ôl i'r dewis o weithdrefn sy'n gymwys i'r darpariaethau hyn.

Yn ystod hydref 2007 ystyriodd y pwyllgor y Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG. Cyflwynwyd adroddiad y pwyllgor ar y Mesur arfaethedig gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 2007. Cadwodd y pwyllgor yr hawl i edrych ar y Mesur arfaethedig eto pan fyddai'n cael ei ystyried yn ystod Cyfnod 2 ac felly dychwelodd yr Aelodau at y mater hwn.

Derbyniodd y pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am ganlyniad ystyriaeth Cyfnod 2 i Fesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2007. Roedd Aelodau'n fodlon bod argymhellion y pwyllgor o ran darpariaethau is-ddeddfwriaeth y Mesur wedi cael eu hystyried yn iawn yn ystod Cyfnod 2. Er nad oedd y Llywodraeth yn cytuno ar argymhelliad y pwyllgor y dylai'r gyfres gyntaf o reoliadau ddilyn y weithdrefn uwchgadarnhaol, cytunodd y pwyllgor y byddai'n ddefnyddiol datblygu'r syniad o'r weithdrefn hon i'w defnyddio mewn deddfwriaeth yn y dyfodol.

**Dr Dai Lloyd AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**8 Ebrill 2008**

**Atodiad 1**

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-07-08)

**SLC 122**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i dalu sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

**Teitl: Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008**

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer talu grant ar sail prawf moddion i fyfyrwyr mewn addysg ôl-orfodol sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 i'w helpu i dalu costau astudio.

**Gweithdrefn: Negyddol**

Nodwyd y pwyntiau canlynol i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2.

1. Mae'r diffiniadau o "cyfnod o astudio llawn amser" a "cyfnod o astudio rhan amser" yn rheoliad 2 ill dau yn gorffen gyda'r ymadrodd "diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs dan sylw. Mae'r hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r ail o'r rhain ("cyfnod o astudio rhan-amser") yn gywir yn defnyddio'r ymadrodd "ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw", ond mae'r hyn sy'n cyfateb i'r cyntaf ("cyfnod o astudio llawn-amser") yn defnyddio "ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd o dan sylw" heb gyfeirio at y cwrs. [Rheol Sefydlog 15.2(vii)]

2. Yn rheoliad 14(3) defnyddir yr ymadrodd "Yn y paragraff hwn" i gyflwyno termau sydd wedi'u diffinio. Fodd bynnag, maent wedi'u diffinio oherwydd y defnyddir hwy nid yn unig yn y paragraff hwnnw, ond yn y rheoliad cyfan. Dylai felly ddarllen "Yn y rheoliad hwn". [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**8 Ebrill 2008**

**Ymateb Llywodraeth y Cynulliad:**

**Memorandwm ar ran y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ynghylch Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008**

## Cefndir

Gwnaethpwyd Rheoliadau Grant Dysgu'r Cynulliad (Addysg Bellach) 2008 dan Weithdrefn Negyddol Y Cynulliad.

Caiff y Rheoliadau hyn eu gwneud o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ag Addysg Uwch 1998.

Cafodd yr Offeryn ei wneud ar 26 Mawrth 2008 gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

Yr Adran sydd â chyfrifoldeb am y Rheoliadau hyn yw'r Adran dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ("yr Adran").

Pwrpas y Rheoliadau hyn yw i ddarparu ar gyfer talu grant ar sail prawf moddion i fyfyrwyr mewn addysg ôl-orfodol sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach dynodedig yn ystod y flwyddyn academaidd sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2008 i'w helpu i dalu costau astudio.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2008.

Ar 6 Mawrth 2008 rhoddodd Cynghorwr Cyfreithiol y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth wybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru am faterion drafftio yn gysylltiedig â'r Offeryn hwn.

## Materion a nodwyd yn Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth o dan Rheol Sefydlog 15:

Mae'r pwyntiau canlynol yn ymwneud â Rheol Sefydlog 15.2 ar sail drafftio diffygiol (Rheol Sefydlog 15.2(vi)) ac anghysondebau rhwng ystyr y testunau Cymraeg a Saesneg (Rheoliad Sefydlog 15.2(vii)):

1. Yn rheoliad 14(3) defnyddir yr ymadrodd "Yn y paragraff hwn" i gyflwyno termau sydd wedi'u diffinio. Fodd bynnag, maent wedi'u diffinio oherwydd y defnyddir hwy nid yn unig yn y paragraff hwnnw, ond yn y rheoliad cyfan. Dylai felly ddarllen "Yn y rheoliad hwn". [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

2. Mae'r diffiniadau o "cyfnod o astudio llawnamser" a "cyfnod o astudio rhan-amser" yn rheoliad 2 ill dau yn gorffen â'r ymadrodd "ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs dan sylw". Mae'r hyn sy'n cyfateb yn Gymraeg i'r ail o rhain ("cyfnod o astudio rhan-amser") yn gywir yn defnyddio'r ymadrodd "ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd y cwrs o dan sylw", ond mae'r hyn sy'n cyfateb i'r cyntaf ("cyfnod o astudio llawnamser") yn defnyddio

“diwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd o dan sylw” heb gyfeirio at y cwrs. [Rheol Sefydlog 15.2(vi)]

**Ymateb i Adroddiad Drafft y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar ran y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:**

1. Mae rheoliad 14(3) yn anghywir o ran ei fod yn cyfyngu’r diffiniadau, sy’n gymwys i’r fformiwla a ddefnyddir ar gyfer y rheoliad cyfan, i’r paragraff hwnnw yn unig. Dylai felly ddatgan fod y diffiniadau yn gymwys i’r rheoliad, nid y paragraff. Gellir dadlau fod y nam yn un sy’n amlwg yn anghywir gan ei fod yn glir bod y diffiniadau yn gymwys i’r termau a ddefnyddir yn y fformiwla sy’n cael ei ragnodi gan rheoliad 14(2) ac nid yw’r termau hynny yn cael eu defnyddio yng ngweddill y rheoliadau. Felly, nid yw’r defnydd anghywir o’r term “paragraff” yn arwain at unrhyw gamddealltwriaeth. Er gwaethaf yr uchod, mae’r Adran yn bwriadu diwygio’r drafftio diffygiol o fewn y deuddeng mis nesaf pan gwneir y rheoliadau ar gyfer y flwyddyn academaidd sy’n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2009.

2. O fewn testun Cymraeg rheoliad 2 nid yw’r geiriau “y cwrs” yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o “cyfnod o astudio llawnamser”. Serch hynny, mae cais ar gyfer cymorth ariannol o reidrwydd yn ymwneud â mynychu cwrs, ac yn yr un modd y mae’n glir bod y cyfeiriad tuag at oriau cyswllt mewn man arall o’r diffiniad hefyd mewn cysylltiad â chwrs. Felly, nid yw absenoldeb y geiriau “y cwrs” yn arwain at unrhyw gamddealltwriaeth. Er gwaethaf yr uchod, mae’r Adran yn bwriadu diwygio’r drafftio diffygiol o fewn y deuddeng mis nesaf pan wneir y rheoliadau ar gyfer y flwyddyn academaidd sy’n dechrau ar neu ar ôl Medi 1 2009.

**Simon Brindle, Cyfarwyddwr Grŵp Dysgu Uwch, o dan awdurdod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.**

# Atodiad 2

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-04-08)

**SLC 127**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.

**Teitl: Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008**

Yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 ("Rheoliadau 2003") (sy'n ymdrin â chyfrifo isafswm darpariaeth refeniw) yn disodli'r gofyniad bod awdurdodau lleol yn gwneud cyfrifiadau manwl â dyletswydd newydd i wneud darpariaeth ddarbodus; (ii) yn diwygio darpariaethau penodol yn rheoliad 24C o Reoliadau 2003, sy'n ymwneud â phremiymau a disgowntiau ar fenthyciadau sy'n cael eu codi gan awdurdodau lleol a'u had-dalu'n gynnar, er mwyn i'r darpariaethau hynny adlewyrchu'r rhai cyfatebol yn rheoliad 24B; a (iii) yn mewnosod rheoliadau newydd 24E a 24F yn Rhan 6 o Reoliadau 2003. Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn rhoi i awdurdodau lleol rywfaint o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn rhoi cyfrif am fenthyciadau ar gyfradd llog gynyddrannol yr ymrwymwyd iddynt cyn 21 Ionawr 2008 ac am warantau ariannol a roesant cyn y dyddiad hwnnw.

## Gweithdrefn:  Negyddol

Nodwyd y pwyntiau canlynol i'w hadrodd o dan Reol Sefydlog 15.2 (ii) (ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi'i wneud neu i'w wneud odano).

- Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 yn nodi bod Gweinidogion Cymru yn defnyddio eu pwerau yn unol ag adran 9 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, sy'n darparu ar gyfer pŵer i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer swm cyfan a dderbynnir gan awdurdod lleol:-(i) mewn perthynas â gwaredu ganddo log mewn ased cyfalaf, neu ran o swm o'r fath a gaiff ei benderfynu dan y rheoliadau, sydd i'w drin fel rhywbeth nad yw'n dderbyniad cyfalaf; neu (ii) ac eithrio mewn perthynas â gwaredu ganddo log mewn ased cyfalaf, neu swm o'r fath a gaiff ei benderfynu dan y rheoliadau, i'w drin fel rhywbeth sy'n dderbyniad cyfalaf.

- Mae Adran 9 (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 yn bŵer gormodol gan ei fod yn cael ei grybwyll yn y Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid

Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 ond nid yw’n cael ei ddefnyddio’n wirioneddol gan Weinidogion Cymru.

Mae’r Llywodraeth wedi ymateb fel a ganlyn:-

"Mae’r llywodraeth yn derbyn fod yr offeryn yn enwi adran 9(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 ond nid yw’r pŵer a gynhwysir o fewn yr isadran honno yn cael ei ddefnyddio yn yr offeryn.

Gan fod y pŵer a enwyd heb gael ei ddefnyddio nid yw’r llywodraeth yn derbyn adrodd ar yr offeryn hwn ar y sail ei bod yn ymddangos ei fod yn gwneud defnydd anarferol neu annisgwyl ar y pwerau a roddwyd gan y deddfiad y mae wedi’i wneud neu i’w wneud odano.

Er nad yw’r llywodraeth yn derbyn y sail mae’n cael ei adrodd arno, mae’n cydnabod bod yr offeryn yn cynnwys pŵer gormodol sydd, er na fydd yn weithredol mewn unrhyw fodd fydd yn cael ei gywiro trwy slip cywiriad."

Ystyrir bod y dull gweithredu arfaethedig yn dderbyniol.

**Dr Dai Lloyd AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**8 Ebrill 2008**